

---

CYNLLUN CODI TALIADAU I AWDURDODAU  
LLEOL

---

**CYNLLUN TRWYDDEDAU AWDURDODAU LLEOL AR GYFER  
GWEITHFEYDD AC OFFER SYMUDOL RHAN B A  
GWEITHGAREDDAU ALLYRRU TODDYDDION (FFIOEDD A  
THALIADAU) (CYMRU) 2016**

**CYNNWYS**

**RHAN 1**

Cyflwyniad

1. Enwi, cymhwyso a chychwyn
2. Dirymu
3. Dehongli
4. Gweithgareddau cyfunol

**RHAN 2**

Ffioedd a chostau hysbysebu mewn perthynas â cheisiadau am drwyddedau

5. Y ffi am gais am roi trwydded ar gyfer gweithfa
6. Y ffi am gais am roi trwydded ar gyfer offer symudol
7. Ffioedd ychwanegol pan ddyroddir cyfarwyddyd o dan reoliad 33
8. Y ffi am gais am amrywio trwydded
9. Y ffi am gais am drosglwyddo trwydded
10. Ildio trwydded
11. Ad-dalu costau hysbysebu

**RHAN 3**

Taliadau parhau

12. Blwyddyn ariannol
13. Talu'r tâl parhau
14. Swm y tâl parhau sy'n daladwy: gweithfeydd
15. Swm y tâl parhau sy'n daladwy: offer symudol
16. Amseriad y taliadau
17. Talu yn y flwyddyn y rhoddir y drwydded
18. Ffi am dalu'n hwyr

**RHAN 4**

Ad-dalu ffioedd a thaliadau parhau

19. Ad-dalu ffioedd am gais am roi trwydded
20. Ad-dalu ffioedd am gais am amrywio trwydded
21. Ad-daliadau o dâl parhau
22. Ad-daliadau eraill

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau o dan reoliad 65 o Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010(1), yn gwneud y Cynllun a ganlyn:

## RHAN 1

### Cyflwyniad

#### Enwi, cymhwyso a chychwyn

##### 1. O ran y Cynllun hwn—

- (a) ei enw yw Cynllun Trwyddedau Awdurdodau Lleol ar gyfer Gweithfeydd ac Offer Symudol Rhan B a Gweithgareddau Allyrru Toddyddion (Ffioedd a Thaliadau) (Cymru) 2016;
- (b) mae'n gymwys yng Nghymru; ac
- (c) daw i rym ar 1 Ebrill 2016.

#### Dirymu

2. Mae Cynllun Trwyddedau Awdurdodau Lleol ar gyfer Gweithfeydd ac Offer Symudol a Gweithgareddau Allyrru Toddyddion Rhan B (Ffioedd a Thaliadau) (Cymru) 2015 wedi ei ddirymu.

#### Dehongli

##### 3.—(1) Yn y Cynllun hwn—

ystyr “Adran” (“*Section*”) yw Adran o Ran 2 o Atodlen 1 i'r Rheoliadau;

mae i “cerbyd” yr ystyr a roddir i “vehicle” gan Erthygl 1 o Gyfarwyddeb 70/156/EEC(2);

ystyr “gweithfa” (“*installation*”) yw un o'r canlynol—

(a) gweithfa Rhan B, eraill i sefydliad lle mae offer llosgi gwastraff bach yn cael ei rhedeg; neu

(b) gweithfa nad yw'n weithfa Rhan A(1), gweithfa Rhan A(2) na gweithfa Rhan B, pan gynhelir neu y bwriedir cynnal un neu ragor o weithgareddau allyrru toddyddion;

ystyr “gweithgaredd” (“*activity*”) yw un o'r canlynol—

(a) gweithgaredd Rhan B, eraill i weithredu offer llosgi gwastraff bach;

(b) gweithgaredd allyrru toddyddion; neu

(c) gweithgaredd cyfunol, fel y'i ddiffinnir yn erthygl 4;

ystyr “gweithgaredd ffi ostyngol” (“*reduced fee activity*”) yw un o'r canlynol—

(a) sychlanhau;

(b) dadlwytho petrol i danciau storio sefydlog mewn gorsaf betrol (paragraffau (b) ac (c) o Ran B o Adran 1.2) (Gweithgareddau nwyeddio, hylifo a phuro) (“AAP I”);

(ii) gweithgareddau ail-lenwi cerbydau modur â thanwydd mewn gorsafedd petrol newydd a phresennol (paragraffau (d) ac (e) o Ran B o Adran 1.2) (Gweithgareddau nwyeddio, hylifo a phuro) (“AAP II”);

(c) unrhyw weithgaredd yn Rhan B o Adran 1.1 sy'n defnyddio offer llosgi olew gwastraff, nad yw ei gyfradd mewnbnw thermol net yn fwy na 0.4 MW;

(d) cotio'r cyfan, neu unrhyw ran, o gerbyd—

(i) a gyflawnir fel rhan o waith trwsio, gwaith cadwraeth neu waith addurno ar gerbydau, ac eithrio mewn gweithfa weithgynhyrchu; a

---

1) O.S. 2010/675.

2) OJ Rhif L42, 23.2.70, t. 1.

(ii) sy'n dod o fewn paragraff (b) o Ran B o Adran 6.4;

sef gweithgaredd y cyfeirir ato yn y Cynllun fel "ailorffenywyr cerbydau";

(e) gweithgareddau a nodir yn Atodiad 1 y cynllun hwn;

mae i "newid sylweddol" yr un ystyr â "substantial change" ym mharagraff 5(5) o Atodlen 5 i'r Rheoliadau;

ystyr "offer symudol" ("*mobile plant*") yw un o'r canlynol—

(a) offer symudol Rhan B; neu

(b) offer symudol nad yw'n offer symudol Rhan B pan gynhelir neu y bwriedir cynnal un neu ragor o weithgareddau allyrru toddyddion;

ystyr "y Rheoliad CE" ("*the EC Regulation*") yw Rheoliad (EC) Rhif 166/2006 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynglŷn â sefydlu Cofrestr Ewropeaidd ynghylch Gollwng a Throsglwyddo Llygryddion, a wnaed ar 18 Ionawr 2006(1);

ystyr "y Rheoliadau" ("*the Regulations*") yw Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010;

mae i "sychlanhau" yr ystyr a roddir i "dry cleaning" yn Atodiad VII i Gyfarwyddeb 75/2010/EC(2);

ystyr "trwydded" ("*permit*") yw trwydded amgylcheddol a roddir gan awdurdod lleol o dan y Rheoliadau ac, oni ddywedir fel arall, mae'n drwydded sy'n awdurdodi gweithredu gweithfa neu offer symudol.

(2) Mae unrhyw cyfeiriad at reoliad, Adran, Rhan neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at reoliad, Adran, Rhan neu Atodlen yn y Rheoliadau, ac mae i eiriau ac ymadroddion Cymraeg yn y Cynllun hwn yr un ystyr â'r geiriau a'r ymadroddion Saesneg cyfatebol yn y Rheoliadau.

### Gweithgareddau cyfunol

4. Caiff y canlynol eu trin fel un gweithgaredd at ddibenion y Cynllun hwn—

(a) gweithgareddau Rhan B sy'n dod o fewn yr un Adran ac sydd, neu a fydd, yn cael eu cyflawni yn yr un weithfa neu gan yr un offer symudol;

(b) gweithgareddau allyrru toddyddion sydd, neu a fydd, yn cael eu cyflawni yn yr un weithfa neu gan yr un offer symudol;

(c) un neu ragor o weithgareddau allyrru toddyddion sydd, neu a fydd, yn cael eu cyflawni yn yr un weithfa neu gan yr un offer symudol ag un neu ragor o weithgareddau Rhan B sy'n dod o fewn yr Adrannau a ganlyn—

(i) Adran 2.1 (metelau fferrus);

(ii) Adran 2.2 (metelau anfferrus);

(iii) Adran 2.3 (metelau a deunyddiau plastig ar gyfer trin arwynebau);

(iv) Adran 6.4 (gweithgareddau cotio, argraffu a thriniaethau i decstilau);

(v) Adran 6.5 (gweithgynhyrchu lliwurus, inc argraffu a deunyddiau cotio);

(vi) Adran 6.7 (gweithgareddau sy'n cynnwys rwberi);

(vii) Adran 6.8 (trin deunydd sy'n tarddu o anifeiliaid a deunydd llysiuol, a diwydiannau bwyd);

(d) unrhyw weithgaredd Rhan B yng ngholofn 1 yn Nhabl 1, a gyflawnir yn yr un weithfa neu gan yr un offer symudol ag unrhyw weithgaredd Rhan B cyfatebol yng ngholofn 2—

Tabl 1

Y gweithgaredd	Y gweithgaredd cyfatebol
----------------	--------------------------

1) OJ Rhif L 33, 4.02.06, t. 1.

2) OJ Rhif L334 17 12 10, t. 17.

Un neu ragor o weithgareddau sy'n dod o fewn Adran 2.1 (metelau fferrus)	Un neu ragor o weithgareddau sy'n dod o fewn Adran 2.2 (metelau anfferrus)
Un neu ragor o weithgareddau sy'n dod o fewn Adran 3.1 (cynhyrchu sment a chalch)	Un neu ragor o weithgareddau sy'n dod o fewn Adran 3.5 (gweithgareddau mwynol eraill)
Un neu ragor o weithgareddau sy'n dod o fewn Adran 3.6 (cynhyrchu ceramig)	Un neu ragor o weithgareddau sy'n dod o fewn Adran 3.5 (gweithgareddau mwynol eraill)
Un neu ragor o weithgareddau sy'n dod o fewn Adran 6.4 (gweithgareddau cotio, argraffu a thriniaethau i decstilau)	Un neu ragor o weithgareddau sy'n dod o fewn Adran 6.5 (gweithgynhyrchu lliwrau, inc argraffu a deunyddiau cotio)

## RHAN 2

Ffioedd a chostau hysbysebu mewn perthynas â cheisiadau am drwyddedau

### Y ffi am gais am roi trwydded ar gyfer gweithfa

5. Y ffi am gais am roi drwydded i weithredu gweithfa yw cyfanswm y ffioedd sy'n daladwy am bob gweithgaredd sydd i'w gyflawni yn y weithfa honno, fel y'u nodir yn Nhabl 2—

**Tabl 2**

Y gweithgaredd	Y ffi sy'n daladwy am bob gweithgaredd
(a) Sychlanhau, AAP I, AAP II neu unrhyw weithgaredd yn Rhan B o Adran 1.1 sy'n defnyddio offer llosgi olew gwastraff, nad yw ei gyfradd mewnbwn thermol net yn fwy na 0.4 MW	£152
(b) Gweithgareddau AAP I ac AAP II a gyflawnir yn yr un orsaf betrol <sup>(1)</sup>	£252
(c) Unrhyw weithgaredd ffi ostyngol ac eithrio'r rhai yn eitemau (a) ac (b)	£355
(d) Unrhyw weithgaredd arall	£1629
<sup>(1)</sup> Cyfanswm y ffi sy'n daladwy gan rai sy'n gwneud cais am AAP I yr un pryd ag AAP II yw £252.	

### Y ffi am gais am roi trwydded ar gyfer offer symudol

6.—(1) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau paragraff (2), bydd y ffi am gais am roi trwydded i weithredu offer symudol fel y'i nodir yn Nhabl 3—

**Tabl 3**

Y ffi sy'n daladwy am bob trwydded i weithredu offer symudol
£1629 am drwydded gyntaf
£1629 am ail drwydded
£972 am 3 <sup>edd</sup> drwydded
£972 am 4 <sup>edd</sup> drwydded
£972 am 5 <sup>ed</sup> drwydded
£972 am 6 <sup>ed</sup> drwydded
£972 am 7 <sup>fed</sup> drwydded
£492 am 8 <sup>fed</sup> drwydded a phob trwydded ddilynol

(1) Y ffi am gais am y grant trwydded i weithredu offer symudol ar gyfer unrhyw weithgaredd ffi ostyngol a bennir yn Atodiad 1 i'r cynllun hwn yw'r un ffi a fyddai'n daladwy o dan erthygl 5 ar gyfer cais am grant trwydded i weithredu gosod ar gyfer y gweithgaredd hwnnw, i.e. £355.

### **Ffioedd ychwanegol pan ddyroddir cyfarwyddyd o dan reoliad 33**

7. Pan fo cyfarwyddyd wedi ei ddyroddi o dan reoliad 33, i'r perwyl bod awdurdod lleol i arfer swyddogaethau Corff Adnoddau Naturiol Cymru mewn cysylltiad â thrwydded sengl sy'n cwmpasu—

- (a) gweithgareddau Rhan B a gweithrediadau gwastraff;
- (a) gweithgareddau allyrru toddyddion a gweithrediadau gwastraff; neu
- (b) gweithgareddau Rhan B, gweithgareddau allyrru toddyddion a gweithrediadau gwastraff,

yna, ar gyfer unrhyw weithgaredd a ddisgrifir yn eitem (c) neu eitem (d) o Dabl 2, rhaid i'r gweithredwr dalu £274 yn ychwanegol at y ffi sy'n daladwy yn eitem (c) neu eitem (d).

### **Y ffi am gais am amrywio trwydded**

8.—(1) Yn achos cais o dan reoliad 20, a ystyrir gan yr awdurdod lleol yn gais a fyddai'n golygu newid sylweddol pe câi ei ganiatáu, y ffi at ddibenion 65(1)(a)(ii) yw—

- (a) £101, yn achos trwydded sy'n awdurdodi unrhyw weithgaredd ffi ostyngol;
- (b) £1037, yn achos trwydded sy'n awdurdodi unrhyw weithgaredd Rhan B arall neu unrhyw weithgaredd allyrru toddyddion arall.

(2) Os yw'r awdurdod lleol o'r farn y bydd unrhyw gais a wnaed am amrywio trwydded, os caiff ei ganiatáu, yn awdurdodi newid sylweddol yng ngweithrediad gweithfa sydd ynddo'i hunan yn bodloni unrhyw un neu ragor o'r trothwyon a bennir ar gyfer gweithgaredd Rhan B neu weithgaredd allyrru toddyddion, y ffi yw £1629.

### **Y ffi am gais am drosglwyddo trwydded**

9. Mae'r ffi am gais am drosglwyddo trwydded oddi wrth y gweithredwr i berson arall fel y'i nodir yn Nhabl 4—

**Tabl 4**

<b>Y cais</b>	<b>Y ffi sy'n daladwy</b>
Trosglwyddo trwydded sy'n awdurdodi gweithgaredd ffi ostyngol	£46 am drosglwyddiad rhannol (Nid oes ffi'n daladwy am drosglwyddiad cyfan)
Trosglwyddo trwydded sy'n awdurdodi unrhyw weithgaredd arall	£491 am drosglwyddiad rhannol, a £167 am drosglwyddiad cyfan

### **Ildio trwydded**

10. Ni chodir ffi am hysbysu ildio trwydded.

### **Ad-dalu costau hysbysebu**

11. Rhaid i weithredwr sydd wedi gwneud cais o dan y Rheoliadau ad-dalu gwir gostau'r awdurdod lleol mewn amgylchiadau pan fo'r awdurdod wedi barnu ei bod yn briodol rhoi gwybod i ymgyngoreion cyhoeddus drwy hysbysebu'r cais yn unol â pharagraff 6(1)(a) o Ran 1 o Atodlen 5.

## RHAN 3

### Taliadau parhau

#### Blwyddyn ariannol

12. Yn y Rhan hon, ystyr “blwyddyn ariannol” yw’r cyfnod o 12 mis sy’n dod i ben ar 31 Mawrth.

#### Talu’r tâl parhau

13.—(1) Rhaid i’r gweithredwr dalu tâl blynyddol i’r awdurdod lleol mewn cysylltiad â pharhau pob trwydded y mae’n ei dal (yn y Rhan hon, cyfeirir ato fel y “tâl parhau”) yn unol â rheoliad 65(1)(c).

(2) Mae’r tâl parhau i’w dalu’n llawn er bod unrhyw weithgaredd yn y weithfa neu gan yr offer symudol y mae’r drwydded yn ymwneud ag ef yn cael ei atal dros dro yn rhannol neu’n gyfan gwbl, neu’n peidio’n rhannol neu’n gyfan gwbl, yn ystod y flwyddyn ariannol.

#### Swm y tâl parhau sy’n daladwy: gweithfeydd

14. Y tâl parhau mewn cysylltiad â phob trwydded ar gyfer gweithfa yw cyfanswm—

- (a) y tâl am bob gweithgaredd a awdurdodwyd gan y drwydded, fel y’i nodir yn Nhabl 5, lle y mae “ymdrech rheoleiddio isel”, “ymdrech rheoleiddio ganolig” a “ymdrech rheoleiddio uchel” wedi eu categoreiddio yn unol â’r fethodoleg ac y mae iddynt yr ystyron sydd i “low regulatory effort”, “medium regulatory effort” a “high regulatory effort” yn y ddogfen o’r enw ‘LAPPC Risk Method March 2009 (revised July 2013)’;
- (b) pan fo’r gweithredwr yn gwneud gweithrediad sy’n dod o fewn rhwymedigaethau adrodd y Rheoliad CE, y swm o £102 i gyflenwi cost yr awdurdod o ran casglu, gwirio sicrwydd ansawdd a phrosesu’r data a adroddir ar lygryddion a throsglwyddiadau gwastraff sy’n digwydd oddi ar y safle; ac
- (c) pan fo cyfarwyddyd wedi ei ddyroddi o dan reoliad 33, i’r perwyl bod awdurdod lleol i arfer swyddogaethau Corff Adnoddau Naturiol Cymru mewn cysylltiad â thrwydded sengl sy’n cwmpasu—
  - (i) gweithgareddau Rhan B a gweithrediadau gwastraff; neu
  - (ii) gweithgareddau allyrru toddyddion a gweithrediadau gwastraff; neu
  - (iii) gweithgareddau Rhan B, gweithgareddau allyrru toddyddion a gweithrediadau gwastraff,

yna mae tâl parhau ychwanegol yn daladwy, a fydd yn £102 os yw’r gweithgaredd yn weithgaredd risg “isel”, £153 os yw’n weithgaredd risg “ganolig”, a £203 os yw’n weithgaredd risg “uchel”.

**Tabl 5**

Y gweithgaredd a awdurdodwyd	Y tâl ar gyfer pob gweithgaredd <sup>(1, 2)</sup>		
	Ymdrech rheoleiddio isel	Ymdrech rheoleiddio ganolig	Ymdrech rheoleiddio uchel
(a) Sychlanhau, AAP I neu unrhyw weithgaredd yn Rhan B o Adran 1.1 sy'n defnyddio offer llosgi Olew gwastraff, nad yw ei gyfradd mewnbwn thermol net yn fwy na 0.4 MW	£76	£155	£232
(b) Gweithgareddau AAP I ac AAP II a gyflawnir yn yr un orsaf betrol	£111	£222	£333
(c) Unrhyw weithgaredd ffi ostyngol ac eithrio'r rhai yn eitemau (a) ac (b)	£223	£359	£542
(d) Unrhyw weithgaredd arall	£762	£1145	£1723

(1) Pan fo wedi ei gadarnhau, ar 1 Ebrill mewn unrhyw flwyddyn, fod newid wedi bod, yn ystod y cyfnod blaenorol o 12 mis, o ran gweithredwr gweithgaredd ffi ostyngol a oedd, cyn hynny, wedi ei ddsbarthu'n weithgaredd ymdrech rheoleiddio isel, bydd ffi ychwanegol o £76 yn daladwy gan y gweithredwr newydd, ar gyfer costau ymweliad ychwanegol gan yr awdurdod lleol er mwyn gwirio a ellir parhau i ddsbarthu'r gweithgaredd yn un ymdrech rheoleiddio isel.

(2) Yn achos gweithredwr sydd wedi talu tâl parhau am weithgaredd Rhan A, a hwnnw wedi dod yn weithgaredd Rhan B sydd i'w gyflawni mewn gweithfa Rhan B, rhaid didynnu o'r tâl parhau Rhan B newydd y gyfran o'r taliad hwnnw sy'n ymwneud â'r cyfnod rhwng dyddiad dyroddi'r drwydded a diwedd y flwyddyn ariannol, a bydd unrhyw randaliad sy'n ddyledus mewn cysylltiad â'r gweithgaredd Rhan A hwnnw ar y dyddiad y dyroddir y drwydded Rhan B yn peidio â bod yn daladwy, a bydd y tâl parhau newydd yn daladwy yn unol ag erthygl 17(2).

**Swm y tâl parhau sy'n daladwy: offer symudol**

15.—(1) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau paragraff (2), mae'r tâl parhau mewn cysylltiad â phob trwydded ar gyfer offer symudol fel y'i nodir yn Nhabl 6—

**Tabl 6**

Nifer y trwyddedau	Y tâl parhau am bob trwydded		
	Ymdrech rheoleiddio isel	Ymdrech rheoleiddio ganolig	Ymdrech rheoleiddio uchel
Trwydded gyntaf	£637	£1020	£1530
Ail drwydded	£637	£1020	£1530
3 <sup>edd</sup> drwydded	£381	£610	£914
4 <sup>edd</sup> drwydded	£381	£610	£914
5 <sup>ed</sup> drwydded	£381	£610	£914
6 <sup>ed</sup> drwydded	£381	£610	£914
7 <sup>fed</sup> drwydded	£381	£610	£914
8 <sup>fed</sup> drwydded a thrwyddedau dilynol	£195	£311	£467

(2) Mae'r tâl parhau mewn perthynas â phob trwydded ar gyfer offer symudol ar gyfer unrhyw weithgaredd ffi ostyngol a bennir yn Atodiad 1 i'r cynllun hwn yw'r lleiaf o'r tâl fel y nodwyd yn Nhabl 6 a'r tâl a fyddai'n daladwy o dan erthygl 14 os yw'r gweithgaredd yn cael ei ar o osodiad.

**Amseriad y taliadau**

16.—(1) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 17 a 18, mae'r tâl parhau yn daladwy—

- (a) yn llawn erbyn 1 Ebrill yn y flwyddyn ariannol y delir y drwydded; neu

- (c) mewn pedwar rhandaliad cyfartal erbyn 1 Ebrill, 1 Gorffennaf, 1 Hydref ac 1 Ionawr yn y flwyddyn ariannol honno.

(2) Os telir y tâl parhau mewn rhandaliadau, bydd cynnydd o £37 ar gyfanswm y tâl parhau sy'n daladwy yn y flwyddyn ariannol honno.

### **Talu yn y flwyddyn y rhoddir y drwydded**

**17**—(1) Yn y flwyddyn ariannol pan roddir y drwydded, mae'r tâl parhau yn daladwy—

- (a) yn llawn ar y dyddiad y ceir y drwydded; neu
- (b) mewn rhandaliadau erbyn 1 Ebrill, 1 Gorffennaf, 1 Hydref ac 1 Ionawr yn y flwyddyn ariannol honno.

(2) Cyfrifir swm y tâl parhau sy'n daladwy yn y flwyddyn ariannol y rhoddir y drwydded drwy luosi nifer y misoedd calendr cyflawn sy'n weddill yn y flwyddyn ariannol honno ar y dyddiad y rhoddir y drwydded ag un rhan o ddeuddeg o'r tâl parhau blyneddol llawn fel y'i nodir yn y Rhan hon.

(3) Os telir y tâl parhau mewn rhandaliadau, bydd cynnydd o £37 ar gyfanswm y tâl parhau sy'n daladwy yn y flwyddyn ariannol honno.

### **Ffi am dalu'n hwyr**

**18.** Pan fo—

- (a) awdurdod lleol wedi dyroddi anfoneb i weithredwr am y taliad o'r tâl parhau neu randaliad o'r tâl parhau o dan y Rhan hon; a
- (b) taliad llawn o'r tâl parhau, neu randaliad o'r tâl parhau, heb ei gael o fewn cyfnod o 8 wythnos sy'n cychwyn ar ddyddiad dyroddi'r anfoneb,

rhaidd i'r gweithredwr dalu ffi o £51 am dalu'n hwyr.

## **RHAN 4**

### **Ad-dalu ffioedd a thaliadau parhau**

#### **Ad-dalu ffioedd am gais am roi trwydded**

**19.**—(1) Rhaid i'r awdurdod lleol, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, ad-dalu'n llawn unrhyw ffi am gais a dalwyd o dan erthyglau 5 neu 6 os digwydd un o'r canlynol cyn dyroddi trwydded—

- (a) bod Gweinidogion Cymru yn dyroddi cyfarwyddyd yn unol â rheoliad 33, yn trosglwyddo swyddogaethau'r awdurdod lleol mewn cysylltiad â gweithfeydd neu offer symudol i Gorff Adnoddau Naturiol Cymru; neu
- (d) bod y gweithgaredd Rhan B neu'r gweithgaredd allyrru toddyddion y ceisir trwydded ar ei gyfer—
  - (i) yn peidio â bod yn weithgaredd sy'n cael ei reoleiddio o dan y Rheoliadau; neu
  - (ii) yn cael ei ailddosbarthu o dan y Rheoliadau i ddod o dan reolaeth Corff Adnoddau Naturiol Cymru.

(2) Pan fo cais am drwydded yn ymwneud ag—

- (a) mwy nag un gweithgaredd Rhan B;
- (e) mwy nag un gweithgaredd allyrru toddyddion; neu
- (f) un neu ragor o weithgareddau Rhan B ac un neu ragor o weithgareddau allyrru toddyddion,

rhaidd talu ad-daliad mewn cysylltiad â phob gweithgaredd Rhan B a phob gweithgaredd allyrru toddyddion sy'n peidio â chael ei reoleiddio neu a ailddosberthir yn unol â pharagraff (1).



### **Ad-dalu ffioedd am gais am amrywio trwydded**

**20.** Rhaid i'r awdurdod lleol, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, ad-dalu'n llawn unrhyw ffi a dalwyd o dan erthygl 8 os yw'r naill neu'r llall o'r canlynol yn digwydd cyn bod amrywiad yn cael ei wneud—

- (a) bod Gweinidogion Cymru yn dyroddi cyfarwyddyd yn unol â rheoliad 33 yn trosglwyddo swyddogaethau'r awdurdod lleol mewn cysylltiad â gweithfeydd neu offer symudol i Gorff Adnoddau Naturiol Cymru; neu
- (b) bod y gweithgaredd Rhan B a awdurdodir gan y drwydded—
  - (i) yn peidio â bod yn weithgaredd sy'n cael ei reoleiddio o dan y Rheoliadau; neu
  - (ii) yn cael ei ailddosbarthu o dan y Rheoliadau i ddod o dan reolaeth Corff Adnoddau Naturiol Cymru.

### **Ad-daliadau o dâl parhau**

**21.—(1)** Rhaid i'r awdurdod lleol, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ac yn unol â'r erthygl hon, ad-dalu unrhyw dâl parhau a dalwyd gan y gweithredwr o dan Ran 3—

- (a) os yw Gweinidogion Cymru yn dyroddi cyfarwyddyd yn unol â rheoliad 33 yn trosglwyddo swyddogaethau'r awdurdod lleol mewn cysylltiad â gweithfeydd neu offer symudol i Gorff Adnoddau Naturiol Cymru; neu
- (b) os yw'r gweithgaredd a awdurdodir gan y drwydded y talwyd tâl parhau mewn cysylltiad ag ef—
  - (i) yn peidio â bod yn weithgaredd sy'n cael ei reoleiddio o dan y Rheoliadau; neu
  - (ii) yn cael ei ailddosbarthu o dan y Rheoliadau i ddod o dan reolaeth Corff Adnoddau Naturiol Cymru.

(2) Cyfrifir swm yr ad-daliad sy'n daladwy fel a ganlyn—

- (a) cyfanswm y tâl parhau blynyddol llai un rhan o ddeuddeg o gyfanswm y tâl wedi ei luosi â nifer y misoedd calendr sy'n weddill o 1 Ebrill hyd at y dyddiad perthnasol; neu
- (b) pan fo'r tâl parhau yn cael ei dalu mewn rhandaliadau, swm y rhandaliad diwethaf sy'n ddyledus llai traean o'r swm hwnnw am bob mis calendr cyflawn o'r dyddiad pan oedd y rhandaliad hwnnw yn ddyledus hyd at y dyddiad perthnasol.

(3) Bydd unrhyw rhandaliadau o'r tâl parhau, nad ydynt wedi dod yn daladwy cyn y dyddiad perthnasol, yn peidio â bod yn daladwy.

(4) Yn yr erthygl hon, ystyr y "dyddiad perthnasol" yw'r dyddiad pan fydd Gweinidogion Cymru yn dyroddi cyfarwyddyd o dan reoliad 33, neu'r dyddiad pan fydd gweithgaredd yn peidio â bod yn weithgaredd a reoleiddir neu'n cael ei ailddosbarthu yn unol â rheoliad 33(1)(b).

### **Ad-daliadau eraill**

**22.** Rhaid i'r awdurdod lleol beidio ag ad-dalu unrhyw dâl parhau na ffi ac eithrio yn unol â darpariaethau'r Rhan hon.



Dyddiad 10 Mawrth 2016

Carl Sargeant  
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol,  
un o Weinidogion Cymru

## ATODIAD 1 – GWEITHGAREDDAU FFI OSTYNGOL A GYFLWYNWYD YN 2015

Mae'r canlynol yn weithgareddau ffi ostyngol. Ar gyfer gweithfeydd, wrth benderfynu ar faint yr ymdrech rheoleiddio ar gyfer gweithgareddau at ddiben neilltuo taliadau parhau, dylid defnyddio Rhan 1 yn hytrach na Rhan 2 yr 'LAPPC Risk Method'. Fodd bynnag, nid yw Tabl A1.9, â'i ffigurau ar gyfer oriau bras y flwyddyn, yn gymwys i'r gweithgareddau hyn, a dylid darllen yn lle hynny 4.4, 7.1 a 10.7 awr y flwyddyn ar gyfer ymdrechion rheoleiddio isel, canolig ac uchel yn eu tro.

- (a) Gweithgynhyrchu nwyddau trwm o glai (Rhan b o Adran 3.6)
- (b) Diblisgo fermicwlit a chwyddo perlit (paragraff (a) Rhan B o Adran 3.5)
- (c) Prosesau caenu graean ffyrdd (paragraff (e) Rhan B o Adran 3.5) ac eithrio unrhyw weithgaredd sy'n golygu prosesu cynnyrch asffalt wedi'i ailgylchu
- (d) Malu a sgrinio (paragraffau (c) a (d) Rhan B o Adran 3.5)
- (e) Prosesau clai Tsieina a 'ball clay' gan gynnwys chwyth-sychu cerameg (paragraff (a) Rhan B o Adran 3.5)
- (f) Gweithgynhyrchu cynnyrch pren a chynnyrch o bren (Rhan B Adran 6.6)
- (g) Blendio, pecynnu, llwytho, dadlwytho a defnyddio sment (paragraffau (a) a (b) Rhan B o Adran 3.1 a pharagraff (f) Rhan B o 3.5) mewn gweithfa, ac eithrio gweithgaredd sydd neu a fydd yn cael ei gynnal mewn gweithfa sydd â silo sydd wedi'i ddylunio i ddal mwy na 500 tunnell
- (h) Prosesau glo, golosg, cynnyrch glo a golosg petrolewm (paragraff (b) Rhan B o Adran 3.5) mewn gweithfa, ac eithrio gweithgaredd lle bydd y trwybwn o lo yn fwy, neu'n debygol o fod yn fwy na 250,000 tunnell dros unrhyw gyfnod o 12 mis
- (i) Prosesau chwareli (paragraff (a) Rhan B o Adran 3.5) mewn gweithfa, ac eithrio gweithgaredd lle bo más y deunydd a brosesir yn fwy na, neu'n debygol o fod yn fwy na 100,000 tunnell
- (j) Sychu ac oeri mwynau (paragraff (a) Rhan B o Adran 3.5) mewn gweithfa
- (k) Gorchuddio â phowdr (gan gynnwys sherardeiddio ac enamlo gwydrog) sy'n debygol o olygu defnyddio mewn unrhyw gyfnod o 12 mis 20 tunnell neu fwy o baent neu ddeunydd gorchuddio arall a osodir yn ei ffurf solid (paragraff (a) Rhan B o Adran 6.4)
- (l) Bridio cynrhon lle bo pum neu fwy o kilogramau o ddeunydd anifeiliaid, deunydd planhigion neu'r ddau wedi'u cyfuno yn cael eu cyflwyno i'r broses mewn unrhyw wythnos (paragraff (b) Rhan B o Adran 6.8)
- (m) Cynhyrchu treip, coluddyn bras, offal gwyrdd a ffedog naturiol ar gyfer selsig (paragraff (a) Rhan B o Adran 6.8)
- (n) Prosesau pysgod mâl ac olew pysgod (paragraff (a) Rhan B o Adran 6.8)
- (o) Gweithgynhyrchu bwyd i anifeiliaid anwes (paragraff (a) Rhan B o Adran 6.8)
- (p) Cyfuno porthiant anifeiliaid (paragraff (a) Rhan B o Adran 6.8)
- (q) Prosesau tybaco (paragraff (a) Rhan B o Adran 6.8)

- (r) Prosesau bitwmen (paragraff (a) Rhan B o Adran 6.3), ac eithrio
- i) unrhyw weithgaredd sy'n golygu ocsideiddio bitwmen;
  - ii) unrhyw weithgaredd sy'n golygu llosgi mygdarth bitwmen;
  - iii) unrhyw weithgaredd sy'n golygu gweithgynhyrchu cynnyrch gwrthwres; neu
  - iv) unrhyw weithgaredd sy'n cael ei gynnal ar gyfarpar symudol
- (s) Unrhyw weithgaredd ar gyfer polymereiddio neu gyd-bolymereiddio resin wedi'i ragfformiweiddio neu haenen jel wedi'i rhagfformiweiddio sy'n cynnwys hydrocarbon annirlawn, lle bo'r gweithgaredd yn debygol o olygu, mewn unrhyw gyfnod o 12 mis, polymereiddio neu gyd-bolymereiddio 100 neu fwy o dunelli o hydrocarbon annirlawn (paragraff (c) Rhan B o Adran 4.1), ac eithrio
- i) unrhyw weithgaredd sy'n golygu defnyddio dicyclopentadiene;
  - ii) unrhyw weithgaredd sy'n golygu defnyddio offer atal allyriannau styren; neu
  - iii) unrhyw weithgaredd sy'n golygu ailgylchu aseton trwy ei ddistyllu ar y safle

Ni chaiff unrhyw weithgaredd o fath (g), (h), (i) neu (j) sydd neu a fydd yn cael ei gynnal ar gyfarpar symudol ei ystyried yn weithgaredd ffi ostyngol.